

Gofynnwyd i mi gynnwys y golofn hon a ysgrifennais i'r *Pedair Tudalen* ar gyfer Sul y Blodau dan y teitl 'Y Genedlaethol'.

Dylanwad y beirdd ydi o mae'n debyg. Nhw a'u ffugenwau dyfeisgar: 'Ar ganiad y corn gwlad, safed *Pawb yn y pafiliwn*', neu 'safed *Neb*' neu 'safed *Rhywun arall!*'! Nhw mae'n debyg roddodd y syniad ym mhen perchnogion ceffylau rasio i roi enwau slic i feirch y *Grand National*. Dychmygwch y sylwebaeth: '*Long Run is on a long run home, and there's a standing ovation for Standing Ovation, but he has been caught by surprise by Court by Surprise*'.

Gan fy mod yn sgwennu'r geiriau hyn dridiau cyn y ras fawr, wn i ddim a fydd yr un o'r ddau olaf hyn yn rhedeg yn Aintree gan mai ar y 'rhestr wrth gefn' y maen nhw ar hyn o bryd. Ond erbyn i chi eu darllen bydd y ras o'r tu cefn i ni a Sul y Blodau o'n blaen. Ac fe gofiwn unwaith eto daith Iesu Grist i Jerwsalem, nid ar farch gosgeiddig ond ar ebol asyn cyffredin. Ac ar gefn yr asyn hwnnw roedd yn nesáu at ddiwedd ei daith hir, y *long run* honno o breseb Bethlem i groes Golgotha. A'r fath groeso a gafodd wrth i'r dyrfa daenu eu mentyll a'r canghennau palmwydd ar y llawr a bloeddio eu 'Hosanna'. Dyna beth oedd *standing ovation!* O fewn ychydig ddyddiau byddai llawer o'r

dyrfa wedi troi a gwrthod y Brenin hwn y buont mor barod i'w ganmol. Fydden nhw ddim wedi dychmygu'r fath newid ar y pryd wrth gwrs. Ond doedd y tro ar fyd a ddaeth erbyn diwedd yr wythnos yn syndod o gwbl i Iesu. Na, nid *caught by surprise* oedd hi yn ei hanes yr wythnos honno, gan y gwyddai'n iawn beth fyddai'n digwydd a beth fyddai rhaid iddo ei wynebu.

Gwyddai ymlaen llaw y byddai Jwdas yn ei fradychu, a Phedr yn ei wadu, a'r disgyblion yn cefnu arno. Gwyddai y byddai'n cael ei lusgo gerbron yr awdurdodau, a'i gam-drin, a'i draddodi i'w groeshoelio. Gwyddai y byddai'n dioddef, ac yn marw ar Galfaria. Nid oedd dim a ddigwyddodd yn syndod iddo. Roedd y cyfan yn hysbys iddo, ac eto oherwydd ei gariad tuag atom fe fynnodd Iesu gwblhau'r daith hir a phoenus honno a baratowyd ar ei gyfer. A daeth trwyddi yn fuddugoliaethus.

Ac yng Nghymru eleni, ar Sul y Blodau, pwy fydd yn seinio ei glod? *Neb?* Diolch i Dduw, ddaeth hi ddim i hynny gan fod eto bobl o bob oed sy'n ei gyd-nabod yn Arglwydd a Gwarddwr. *Pawb yn y pafiliwn?* O na fyddai felly! Ond mae gormod o lawer o'n cyd-gymry yn ddibris ohono. *Rhywun arall?* Ie, o bosib. Rhywun arall yn ein pentref a'n capel a'n hysgol a'n cartref. Ond beth amdanom ni? Beth amdanat ti?

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 20 (Sul y Pasg)

Cyfarfod Pregethu Cefnywaun

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Ebrill 27

5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

Mai 4

10.15 a.m. - Ysgol Sul

5.00 p.m. - Oedfa

Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 20 (Sul y Pasg)

10.00 a.m. a 5.00 p.m.

- Y Parchg Cath Williams

DIM YSGOL SUL

Ebrill 27

10.30 a.m. - OEDFA DEULU

5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 587 – Sul y Blodau, 13 Ebrill 2014

Yr Wythnos Fawr

Beth fyddwch chi'n ei ddarllen – ar wahân i *Gronyn* wrth gwrs! Papur newydd? Cylchgronau? Nofelau? Llyfrau Taith?

Tybed faint ohonoch sy'n mwynhau hunangofiannau neu gofiannau. Mae yna fynd mawr ar lyfrau felly sy'n rhoi cipolwg i ni ar fywydau gwleidyddion, diddanwyr, athletwyr a phob math o bobl anarferol a chyffredin, diddorol a diflas, hen ac ifanc.

Mae efengylau'r Testament Newydd yn gofnod o fywyd yr Arglwydd Iesu, yn gofiant ar un ystyr. Ac eto, nid cofiant cyffredin mo'r hyn a gawn ni yno. Yn un peth, mae yna ormod o fylchau yn yr hanes. Cawn wybod cryn dipyn am ei enedigath, ond ychydig iawn a ddywedir wedyn am ei blentynod a'i lencyndod. Dim ond un stori a gawn ni mewn gwirionedd, sef yr un amdano'n ddeuddeg oed yn dysgu'r athrawon yn y Deml yn Jerwsalem.

Mae popeth arall a ddywedir amdano'n perthyn i dair blynedd ei weinidogaeth gyhoeddus. Cofiant annigonol iawn fyddai un sy'n canolbwyntio'n llwyr bron ar gyfnod mor fyr ym mywyd y gwrthrych. Ond rhyfeddach fyth fyddai i'r awdur neilltuo bron i chwarter y cofiant i wythnos olaf un y person dan sylw. Nid dyna'r math o gydbwysedd y bydd darllenwyr yn ei ddisgwyl mewn cofiant da. Ond dyna a geir yn yr efengylau; a dyna sy'n eu gwneud yn wahanol iawn i bob cofiant arall a ddarllenoed chi erioed.

Ac fe ddechreuodd yr wythnos olaf honno gyda'r orymdaith i Jerwsalem a gofiwn ni heddiw ar Sul y Blodau. Ymhlith y pethau a ddigwyddodd wedyn ddechrau'r wythnos honno roedd troi'r byrddau arian yn y Deml, a phenderfyniad Jwdas i dderbyn arian am fradychu Iesu. Ond mae'r sylw mwyaf i ddigwyddiadau nos lau a dydd Gwener yr wythnos fawr honno. A'r ffaith bod cymaint o sylw'n cael ei roi i oriau olaf ac i farwolaeth Iesu sy'n gwneud arddiadau'r efengylau mor rhyfeddol. A pham y fath sylw? Am fod marwolaeth Iesu Grist yn rhan mor bwysig o'i weinidogaeth. Ond nid arwydd neu symbol o gariad Duw oedd y groes, ond gwaith. Doedd dim rhaid i Iesu gael ei groeshoelio er mwyn dangos ei gariad a'i dosturi at bobl; roedd wedi dangos y pethau hyn ymhell cyn hynny. Ni ofynnodd Duw i'w fab ddioddef ar Galfaria er mwyn dangos ei gariad atom, ond er mwyn gwneud rhywbeth drosom. Gwaith oedd marwolaeth Iesu; gwaith na ellid ei wneud (hyd yn oed gan Iesu ei hun) ond trwy farw. A'r Pasg hwn eto, fe gofiwn yn ddiolchgar y gwaith hwnnw o gymryd y cyfrifoldeb a'r bai am ein pechodau a dioddef y gosb amdanant. Trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad mae Iesu wedi cymryd ein beiau ni oddi arnom ac wedi mynd â nhw i'r groes, a dioddef cael ei wrthod gan Dduw ei Dad yn ein lle. Dyna ffordd Duw o ddelio â'n pechodau a'i gwneud yn bosibl i ni gael perthynas iawn ag Ef ei hun. Dathlwn a diolchwn am y gwaith hwnnw yr Wythnos Fawr hon.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cath Williams, Caernarfon.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch a chynhelir oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Cymdeithas Undebol Llanberis

Daeth tymor Cymdeithas Undebol Llanberis i ben nos Fawrth ddiwethaf gyda'r Swper Blynyddol yng Ngwesty'r Dolbadarn.

Diolch unwaith eto i Aneurin Jones a'i staff am eu croeso. Croesawyd y Canon Idris Thomas a Mrs Ann Thomas atom. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo am Dr Robert Herbert Mills-Roberts, y llawfeddyg o Benmachno a ddaeth i Ysbyty Chwarel Dinorwig ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac a fu'n bennaf cyfrifol am ddatblygu'r gwasanaethau arbennig yno i'r chwarelwyr a anafwyd.

Diolch i bawb am eu ffyddlondeb i'r Gymdeithas trwy'r tymor, a diolch yn arbennig i Miss Dilys Mai Roberts am yr holl waith trefnu o fis i fis.

Noson Basg

Aeth rhai o hogiau CIC i'r Bala nos Wener i ddathlu'r Pasg mewn cyfarfod arbennig a drefnwyd ar gyfer aelodau CICiau'r Gogledd. Roedd dros 90 o bobl ifanc yno, o Lanberis, Deiniolen, Llanrug, Llithfaen, Pwllheli, Llanuwchllyn, Llansannan a'r Bala.

Pryd oedd y tro diwethaf i chi weld cynulleidfa o 120 a mwy o bobl? Dyna gafwyd y noson o'r blaen gan fod yno nifer dda o arweinyddion y gwahanol glybiau hefyd. Roedd yn gyfarfod llawn hwyl a swm a chwarae (a llawn wyau Pasg hefyd) ond oedfa oedd hi wedi'r cyfan, a neges y Pasg yn cael ei chyflwyno'n effeithiol a chlr i bawb ohonom oedd yno.

Cymun y Groglith

Cynhelir oedfa Gymun yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch ddydd Gwener y Groglith, Ebrill 18. Croeso i bawb.

Cymdeithas Undebol Deiniolen

Bydd Swper Blynyddol fydd y cyfarfod nesaf, yng Nghlwb Golff Caernarfon, nos Lun, Ebrill 28.

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Tabernacl, Llanrwst nos Fercher, Ebrill 30, am 7.00 o'r gloch.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Gwener Y Groglith, Ebrill 18: Gwasanaeth Cymun yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch.

Dydd Sul Y Pasg, Ebrill 20: Cyfarfod Pregethu'r Pasg Cefnywaun. Oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Trefor Jones, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Gwener Y Groglith, Ebrill 18: Gwasanaeth Cymun yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch.

Dydd Sul Y Pasg, Ebrill 20: Oedfaon am 10.00 a 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Cath Williams, Caethro.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 20: Ni fydd oedfa.

Cynllun Efe

Un o Gant ac Un o Fil

Fe gofiwch i ni wneud yr Apêl hon am gymorth i Gynllun Efe yr adeg yma'r llynedd.

I ddechrau, diolch i bawb a gyfrannodd y llynedd. Mae rhai ohonoch wedi trefnu i wneud eich cyfraniadau trwy'r banc yn fisol neu'n flynyddol, ac yn amlwg yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol.

Byddwn yn ddiolchgar os gall y rhai ohonoch a gefnogodd Apêl Un o Fil neu Un o Gant y llynedd wneud yr un peth eto. I'ch atgoffa, felly, yr ydym yn gofyn i bobl gyfrannu £20 y flwyddyn fel rhan o gynllun 'UNO FIL' neu £100 y flwyddyn at gynllun 'UN O GANT'.

Os cawn ni gefnogaeth dda yn eglwysi'r ardal i'r apel hon bydd modd i ni barhau i gynnal swydd ein gweithiwr ieuencid ymhellach na'r flwyddyn bresennol a ddaw i ben ddiwedd Medi eleni.

Mae ffurflenni i'w cael yn y capeli, a gallwch roi eich cyfraniad i'r Gweinidog os gwelwch yn dda. Bydd yr Apêl hon yn cael ei gwneud dros y mis nesaf.

Gobeithio'n fawr y cawn eich cefnogaeth eto. Roedd yr ymateb y llynedd yn hael ac yn galonddid mawr i ni sy'n arwain gwaith Cynllun Efe.

Pasg Efe ... Yfory (dydd Llun, Ebrill 14) ... 10.00 a.m. – 1.30 p.m.

yn Ysgol Gynradd Llanrug ... ar gyfer plant Blwyddyn 3–6 yr ardal ... DOWCH!